

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Targedau Economaidd Economic Targets

C11 Alun Ffred Jones: A wnaiff y Prif Weinidog adrodd ar unrhyw gynnydd o ran cyrraedd targedau economaidd? OAQ1362(FM)

Q11 Alun Ffred Jones: Will the First Minister report on any progress in meeting economic targets? OAQ1362(FM)

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Mae 'Cymru: Economi yn Ffynnu', sy'n disodli 'Cymru'n Ennill', yn amlinellu ein dull o fesur cynnydd yn ein heconomi. Yr ydym yn cadw golwg ar gynnydd drwy gyfrwng ystod o ddangosyddion economaidd, cyflogaeth ac enillion yn arbennig, sef dau beth sydd wedi cynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf mewn termau absoliwt.

The First Minister (Rhodri Morgan): 'Wales: A Vibrant Economy', which supersedes 'A Winning Wales', sets out our approach to measuring progress in the Welsh economy. Our approach is to track progress in a range of economic indicators, notably employment and earnings, both of which have increased significantly in recent years in absolute terms.

Pobl Ifanc Anabl Disabled Young People

Q12 Laura Anne Jones: What action is the Welsh Assembly Government taking to improve the lives of disabled young people in Wales? OAQ1358(FM)

C12 Laura Anne Jones: Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i wella bywydau pobl ifanc anabl yng Nghymru? OAQ1358(FM)

The First Minister: The Assembly has adopted the social model of disability in developing its policies and priorities. This is underpinned by the Children First programme, the national service framework for children, young people and maternity services, the special educational needs code of practice, and the learning disability strategy.

Y Prif Weinidog: Mae'r Cynulliad wedi mabwysiadu model cymdeithasol o anabledd wrth ddatblygu ei bolisiau a'i flaenoriaethau. Mae hyn yn cael ei ategu gan raglen Rhoi Plant yn Gyntaf, y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer plant, pobl ifanc a gwasanaethau mamolaeth, cod ymarfer anghenion addysgol arbennig a strategaeth anabledd dysgu.

Tir Mynydd

Q13 Lisa Francis: Will the First Minister make a statement on the Tir Mynydd scheme? OAQ1371(OAQ)

C13 Lisa Francis: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynllun Tir Mynydd? OAQ1371(OAQ)

The First Minister: Consultation about options for Tir Mynydd in 2007 and 2008 has

Y Prif Weinidog: Daeth yr ymgynghori ynghylch y dewisiadau ar gyfer Tir Mynydd

recently closed and the responses are being analysed. The Minister for Environment, Planning and Countryside will take those comments into account in reaching his decision about the future of the scheme.

yn 2007 a 2008 i ben yn ddiweddar ac mae'r ymatebion yn cael eu dadansoddi. Bydd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad yn ystyried y sylwadau wrth benderfynu ar ddyfodol y cynllun.

Cyflwr y Sector Gweithgynhyrchu The Health of the Manufacturing Sector

Q14 Kirsty Williams: Will the First Minister make a statement on the health of the manufacturing sector in Wales?
OAQ1348(FM)

C14 Kirsty Williams: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyflwr y sector gweithgynhyrchu yng Nghymru?
OAQ1348(FM)

The First Minister: Between September 1999 and September 2005, manufacturing jobs reduced by 15 per cent, compared with 23 per cent across the UK as a whole.

Y Prif Weinidog: Rhwng mis Medi 1999 a mis Medi 2005, cafwyd gostyngiad o 15 y cant yn nifer y swyddi gweithgynhyrchu, o'i gymharu â gostyngiad o 23 y cant ar draws y DU.

Gwasanaethau Trin Traed Chiropody Services

Q15 Peter Black: Will the First Minister make a statement on chiropody services?
OAQ1352(OAQ)

C15 Peter Black: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau trin traed?
OAQ1352(OAQ)

The First Minister: Commissioning responsibility for chiropody lies with local health boards. A draft strategy called 'Therapies for Modernisation' was published by the Welsh Assembly Government in December. This identifies the contributions of therapies, including podiatry, to the modernisation programme. Officials are analysing responses. The final document will be published in the summer.

Y Prif Weinidog: Gyda'r byrddau iechyd lleol y mae'r cyfrifoldeb am gomisiynu gwasanaethau trin traed. Cyhoeddwyd strategaeth ddrafft 'Therapiau ar gyfer Moderneiddio' gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Rhagfyr. Mae hon yn nodi cyfraniadau therapïau, gan gynnwys podiatreg, i'r rhaglen foderneiddio. Mae swyddogion yn dadansoddi'r ymatebion. Cyhoeddir y ddogfen derfynol yn yr haf.